Cofnodion cyfarfod 10 Hydref 2017 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
PRESENNOL		
Iestyn Harris	Einir Wyn Coates	
Casi Roberts	Mair Bebb Jones	
Sarah Riley	Eifion Williams	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
1.0	**GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU**	
1.1	Agorwyd y cyfarfod misol gan yr Is-gadeirydd Iestyn Harris. Ymddiheuriadau: Mei Gwilym, Daniel Williams, Aled Emyr, Gruff John, Nerys John a Peter Simpson. Anfonwyd ymddiheuriadau hefyd gan y Cynghorydd Sir Gareth Griffiths.	
2.0	**ADRODDIAD Y CYNGHORYDD**	
	Dim adroddiad ysgrifenedig wedi ei dderbyn oddi wrth y Cynghorydd Sir.	
3.0	**DATGAN DIDDORDEB**	
	Dim	
4.0	**CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD BLAENOROL**	
	Derbyniwyd gwariant mis Medi a derbyniwyd adroddiad am y mis..	
5.0	**CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL**	
5.1	Derbyniwyd cofnodion 12 Medi 2017 fel rhai cywir. Llofnodwyd y Cofnodion	
6.0	**ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y NEUADD**	
6.1	Anfonwyd adroddiad ar y Neuadd gan y Cadeirydd.	
6.2	Allweddi ar gyfer y Neuadd wedi cyrraedd. Y Cynghorydd Iestyn Harris i ddiweddaru cofrestr allweddi a hefyd i baratoi cytundeb i'w arwyddo gan y defnyddwyr.	IH
6.3	Is Bwyllgor y Neuadd i gyfarfod yn y Neuadd nos Fawrth nesaf. Y Materion i'w trafod bydd:- dwr yn dod i mewn i'r Neuadd, cooker a.y.b yn y Neuadd, ymarfer larwm tân clwb yr ieuenctid am 8 (Y Cynghorydd Daniel Williams i ddangos y drefn. Storfa offer codi sbwriel tu allan i'r Neuadd. Diweddaru telerau defnyddio'r Neuadd.	
6.4	Y Cynghorydd Sarah Riley ac Iestyn Harris i gyfarfod ynglŷn â materion cyflogaeth.	SR/IH
7.0	**ADRODDIAD COFEB Y CLOC**	
7.1	Arian y grant gan Cadw wedi ei dderbyn. Angen gweld lle mae arian War Memorials arni bellach.	CLERC
8.0	**CEISIADAU CYNLLUNIO**	
8.1	C17/0940/20/LL - storfa wartheg newydd - Fferm Plas Llanfair, Caernarfon Road, Y	

	Felinheli LL55 1TT - **DIM GWRTHWYNEBIAD**.	
9.0	**ADRODDIAD Y FYNWENT**	
9.1	Polion i'r giât newydd ar yr ardal bori wedi eu harchebu a'u gosod ar gost o £120.00	
10.0	**ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**	
10.1	Arwydd newydd i'r Maes Parcio wedi ei dderbyn, bydd angen ei godi. Y Cynghorydd Eifion Williams i gael pris marcio'r maes parcio gan 3 gwmni oherwydd nid oedd y Cyngor yn tybio byddai'r offer "spray" yn parhau. Byddai gwaith marcio proffesiynol yn parhau am flynyddoedd.	EW
10.2	Trefnwyd plannu bylbiau ar safle Moriah. Diolch i bawb oedd am eu gwaith.	
11.0	**ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**	
11.1	Cafwyd adroddiad bod Youth Offending Team wedi cwblhau paentio meinciau o eiddo'r Cyngor. Y Clerc i anfon gair o ddiolch.	CLERC
11.2	Cafwyd adroddiad gan y Cynghorydd Sarah Riley bod arolwg y llwybrau cyhoeddus wedi ei gwblhau a bydd adroddiad unigol yn cael ei anfon at y Cyngor Sir.	SR
12.0	**ADRODDIAD PRIFFYRDD**	
12.1	Y Clerc i wneud trefniadau gyda Chyngor Gwynedd i ofalu bod Gorchymyn Gwahardd Trafnidiaeth Trwodd ar gyfer seremoni Sul y Cofio.	CLERC
12.2	Adroddwyd y Cynghorydd Sarah Riley ei bod wedi dylunio taflen i'w danfon i bob tŷ yn y pentref ar gyfer trio cael grwpiau bach mewn ardaloedd o fewn y pentref yn gyfrifol am gasglu sbwriel. Cost printio'r daflen fyddai £15 mewn du a gwyn a £60 mewn lliw. Penderfynwyd byddai taflen lliw yn well a chytunwyd i ddyblygu mewn lliw.	SR
12.3	Penderfynwyd i symud ymlaen gyda gosod yr arhosfan bws yn Aberpwll. Y Clerc i gysylltu a'r adeiladwr a'r swyddog priodol o Gyngor Gwynedd i drefnu ymweliad safle i gadarnhau lleoliad.	CLERC
13.0	**PROSIECTAU**	
13.1	Trafodwyd rhan nesaf o brosiect y Cae Chwarae ar Lan y Môr. Mae dyluniad y placiau wedi eu derbyn. Penderfynwyd symud ymlaen i gynhyrchu'r placiau. Y Cynghorydd Sarah Riley i drefnu.	SR
	Trafodwyd dod o hyd i brosiectau newydd. Cynigwyd byddai cael cinio Nadolig i oedolion y pentref yn dda. Penderfynwyd gofyn i rai o'r pentref os byddant yn fodlon i drefnu gyda	MBJ

	chymorth y Cyngor Cymuned. Y Cynghorydd Mair Bebb i wneud ymholiadau gyda Swyddogion y Felin Sgwrsio	
14.0	**TOILEDAU CYHOEDDUS**	
	Dim i'w adrodd	
15.0	**GWEFAN**	
15.1	Gwaith wedi ei anfon i Delwedd ar gyfer gosod gwybodaeth oddi wrth yr hen wefan i'r wefan newydd. Creu archif ac yn y blaen.	
16.0	**MATERION AMRYWIOL**	
	Dim	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 08:45	
Llofnod:		Dyddiad: